Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **19 Mehefin 2018** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Rhingyll Siân Davies (SD)<br>Miss Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau** | Yr Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB) |

| **CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 22/05/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2278** | **Gwasanaethau Pobl i gyflwyno'r polisi Diswyddo Gwirfoddol drafft i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2279** | **Y Comisiynydd i dderbyn cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol.)** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2280** | **Sefydlu uwch swyddog arweiniol ar gyfer Ymgyrch Darwin o fewn yr Adran Gweithrediadau Arbenigol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2281** | **Llythyr i'w ddrafftio ar gyfer Cydlynydd Cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned Pontnewydd ar Wy ynglŷn ag amhriodoldeb cyflwyno darnau ffilm ar gyfer Ymgyrch Snap wrth orfodi cyflymder.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2282** | **Diweddaru'r Bwrdd Plismona ynglŷn ag arweinydd strategol Cymru (Prif Swyddog) ar gyfer Gan Bwyll.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2283** | **Gwahodd Cydlynwyr y cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned i'r gynhadledd sydd ar fin cael ei chynnal.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2284** | **Ian Price i anfon fersiwn PDF o'r cyflwyniad i'r PS.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2285** | **Y Rhingyll Owen Dillon a'r Rhingyll Ian Price i weithio gyda'r Uwch-arolygydd Templeton a'r tîm galw mewn perthynas â chipio'r gwaith ataliol a gyflawnwyd gan yr Uned Plismona'r Ffyrdd / Gan Bwyll.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2286** | **Yr Adran Gweithrediadau Arbenigol i gynnal asesiad o'r effaith gweithredol (lleoliadau) ar gau Canolfan Flaenweithredu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ym Mhen-bre.** | **Yn parhau** |
| **PB 2287** | **Asesiad o'r trefniadau cytundebol ac oblygiadau safle Pen-bre pe bai'n cael ei gau.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2288** | **I'w drafod yn y Grŵp Prif Swyddogion gyda'r Prif Gwnstabl yng ngoleuni'r llythyr i'r CHTh gan Brosiect Aident.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2289** | **Drafftio llythyr i'w anfon at Russell George AC yn nodi bod ymateb Cymru gyfan yn cael ei geisio ar hyn o bryd i'w ymholiad ynglŷn â'r Dreth Brentisiaeth.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2290** | **Drafftio e-bost i'w anfon at Cerith Thomas yn gofyn am ymateb Cymru gyfan i lythyr Russell George mewn perthynas â'r Dreth Brentisiaeth.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2291** | **Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a thîm ymgysylltu SCHTh i ddatblygu strategaeth wasg cyn cyflwyno'r isadeiledd TCC.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2292** | **Marie McAvoy i ddiweddaru CHTh ynghylch unrhyw apeliadau yn ystod y cyfnod ymbwyllo, a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno yn weithredol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2293** | **Marie McAvoy i roi model gweithredu wedi'i gostio ar gyfer system TCC yr heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2294** | **CHTh i dderbyn adroddiadau ar Fyrddau eiledol mewn perthynas â materion ariannol ac adnoddau dynol.** | **Yn parhau** |
| **PB 2295** | **Y CHTh i drafod y posibilrwydd o gydweithio mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol gyda'r CHTh Alun Michael.** | **Yn parhau** |
| **PB 2296** | **Y CC i fynd gyda'r PGC Richard Lewis i'r cyfarfod ar** | **Cyfarfod** |

| | | |
|---|---|---|
| | **1 Mehefin.** | **wedi'i ganslo** |
| **PB 2297** | **Unedau 4 a 6 i fod yn eitem ar yr agenda ar gyfer diwrnod i ffwrdd SCHTh/Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar 5 Mehefin.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N DEILLIO O GYFARFOD 19/06/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 69** | **Cytunodd y Bwrdd i wobrwyo cytundeb 3 blynedd i EE.** | **Caffael** |
| **PB T2 70** | **Cytunodd y Bwrdd i estyn y cytundeb cyfredol Airwave Solutions Cyf ar gyfer darpariaeth Meddalwedd e-Nodiadur.** | **Caffael** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

PB 2278 – **Gwasanaethau Pobl i gyflwyno'r polisi Diswyddo Gwirfoddol drafft i SCHTh:** Rhoddodd y PG wybod i'r CHTh nad oedd unrhyw amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r Polisi Gwasanaeth Gwirfoddol.

Cafwyd penderfyniad mewn perthynas â'r angen ar gyfer cael eglurder o ran oblygiadau cyflwyno'r polisi ar gyfer unigolion a'r sefydliad.

**Cam Gweithredu: Ystyried y Taliad Diswyddo Gwirfoddol yn ystod cyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Gorffennaf pan fydd ffocws ar faterion AD.**

PB 2279 - **Y Comisiynydd i dderbyn cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol.)**

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â HDP yn cynyddu nifer y Prif Uwch-arolygwyr am gyfnod byr yn dilyn trafodaethau yn Niwrnod i Ffwrdd y Prif Swyddogion a SCHTh ar 5 Mehefin.

**Cam Gweithredu: Rhannu cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol) â'r PS.**

Trafododd y Bwrdd sgwrs rhwng y CHTh, y PG A Chyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r dreth brentisiaeth.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i anfon llythyr o ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Gweinidog Plismona mewn perthynas â'r Dreth Brentisiaeth.**

PB 2295 - **Y CHTh i drafod y posibilrwydd o gydweithio gyda'r CHTh Alun Michael:** Nododd y CHTh ei fod yn cefnogi cydweithio pan fod achos busnes cadarn dros wneud hynny. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chydweithio ar sail Cymru Gyfan a manteision ymuno â chynlluniau o'r fath.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i ymuno â'r cyfarfod Gwasanaethau Cyfreithiol ar y cyd ar 19 Gorffennaf.**

**Cam Gweithredu: Cysylltu â Cerith Thomas mewn perthynas â Strwythur Llywodraethu Cymru Gyfan.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Rhoddodd y PG wybod i'r Bwrdd am nifer o ddiweddariadau gweithredol, gan gynnwys nifer o ladradau ar draws yr ardal heddlu a digwyddiad yn ymwneud â disgybl mewn ysgol uwchradd ym Mhowys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Diweddarodd y PG y Bwrdd am ddau ymchwiliad unigol lle'r oedd swyddogion a staff wedi'u canmol am eu gwaith.

### Diweddariadau Sefydliadol

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch diwrnodau gweithredu a gwaith rhanbarthol yr heddlu. Dywedodd y PG fod ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas â digwyddiadau o'r fath wedi'i uchafu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio â'r cyfryngau. Dywedodd y PG bod timoedd rhanbarthol yn cynnal eu diwrnodau gweithredu eu hunain gan arwain at lefelau cynhyrchiant uchel ledled yr ardal heddlu.

Dywedodd y PG fod pryderon swyddogion mewn perthynas â lawrlwytho darnau fideo o gamerâu fideo a wisgir ar y corff wedi'u trin drwy flaenoriaethu Rhwydwaith Ardal Eang mewn ardaloedd â chysylltiad gwael.

Dywedodd y PG fod y sianel deledu ITV wedi cysylltu â'r heddlu er mwyn trafod cyfres bosibl a fydd yn dilyn swyddogion HDP dros yr haf. Roedd y CHTh a'r PG yn cefnogi'r syniad mewn egwyddor.

## 4. Diweddariad y CHTh

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynghylch agor y Sioe Deithiol Technoleg Plismona Genedlaethol, ymgysylltu â Swyddfa Gartref Cymru yn ystod ymweliad â Phencadlys yr Heddlu ym mis Mehefin, a'i bresenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanfair-ym-Muallt ddiwedd mis Mai, ymysg ymrwymiadau lleol eraill.

Yn ogystal, diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i bresenoldeb yn Nerbyniad Blynyddol Brake, elusen diogelwch y ffyrdd, yn Llundain, ei bresenoldeb yn Uwch-gynhadledd Diwygio'r Heddlu yn Llundain, ac ymrwymiadau cenedlaethol eraill, gan gynnwys ei bresenoldeb mewn Digwyddiad Pennu Gweledigaeth Cymru Gyfan yng ngogledd Cymru a chyfarfod gyda Scott McPherson, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref, yng Nghaerdydd.

## 5. Pwnc Trafod Misol: Cyllid

Cyflwynodd y CC bapur yn amlinellu cynlluniau'r heddlu ar gyfer y dyfodol a'r cylch gorchwyl mewn perthynas â chyllid.

Mewn diwrnod i ffwrdd ar gyfer swyddogion gweithredol ar 5 Mehefin rhwng Prif Swyddogion HDP a Rheolwyr Gweithredol SCHTh, cytunwyd y byddai Grŵp Aur Cyllid yn cael ei sefydlu er mwyn rheoli materion ariannol yr heddlu. Mae cyfarfod cyntaf y Grŵp Aur Cyllid wedi'i drefnu ar gyfer 19 Gorffennaf, a bydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl. Yn ei dro, bydd y grŵp yn adrodd i'r Bwrdd Plismona am gynnydd.

Canolbwyntiodd y Bwrdd ar Atodiad A o'r papur a gyflwynwyd gan y CC; 'Rheolaeth Ariannol – Rhaglen Adolygu Ddrafft ar gyfer 2018/19' a oedd yn cynnwys 38 cam gweithredu o dan y categorïau canlynol:

- Sefydlu Cyfarfod o'r Grŵp Aur Cyllid
- Adolygiad Ariannol a Gweithredol o 2017/18
- Archwilio a Llywodraethu
- Adolygiad o Dybiaethau Cyllideb 2018/19 a Dewisiadau
- Cyfathrebu a Threfniadau Rheoli Cyllideb
- Adolygiad o Gronfeydd Wrth Gefn, Tybiaethau Cyllideb a Chynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cyllidebau SCHTh
- Rhaglen Gyfalaf

Cyflwynodd y CC adolygiad cynhwysfawr o'r amrediad o gamau gweithredu sydd i'w cyflawni gan y Grŵp Aur.

**Cam Gweithredu: Adolygu'r Polisi Diswyddo Gwirfoddol a'r oblygiadau ariannol cyn y derbynnir ceisiadau.**

**Cam Gweithredu: Y PG i ymgysylltu â'r DBG mewn perthynas â chymorth ar gyfer adrannau i adolygu eu cyllidebau.**

## 6. Materion yn Codi

a) GR-B 118/2018: Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR)

Ystyriwyd llythyr gan y CHTh Mark Burns-Williamson, arweinydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a roddodd diweddariad ynglŷn â'r rhaglen wasanaeth genedlaethol ANPR a fyddai'n disodli systemau ANPR lleol a chenedlaethol. Holodd y CHTh sut fyddai hyn yn effeithio ar drefniant cyfredol yr heddlu o ran systemau ANPR a pha un ai a oeddent yn tanysgrifio i fanteision y rhaglen genedlaethol yn Nyfed-Powys fel yr amlinellir yn y llythyr gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i roi gwybodaeth am sefyllfa'r heddlu mewn perthynas â'r rhaglen wasanaeth genedlaethol ANPR.**

b) Cytundeb Cardiau SIM ar gyfer Ffonau Symudol

Ystyriwyd yr achos busnes ar gyfer y cytundeb cardiau SIM ar gyfer ffonau symudol, a oedd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu. O ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, cytunwyd y byddai cytundeb 3 blynedd yn cael ei roi i EE.

**Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i wobrwyo cytundeb 3 blynedd i EE.**

c) Cytundeb Meddalwedd E-nodiadur

Mae HDP wedi buddsoddi mewn Rhaglen Data Symudol ers 2008. Llinyn o'r ffrwd gwaith hwn oedd meddalwedd e-nodiadur a gyflwynwyd yn 2014. Roedd y cytundeb cychwynnol am gyfnod o 4 blynedd, sy'n dod i ben ym mis Mehefin 2018. Daw'r fframwaith i ben ym mis Rhagfyr 2019, felly caniateir estyniad pellach. Cynigir y dylid cymeradwyo estyn y cytundeb am ddwy flynedd.

**Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i estyn y cytundeb cyfredol Airwave Solutions Cyf ar gyfer darpariaeth Meddalwedd e-Nodiadur.**

ch) Cytundeb Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â gwobrwyo Cytundeb Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu tra bod gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio mewn perthynas â'r sefyllfa o ran y Dreth Brentisiaeth.

Holodd y PSA pa un ai a oedd cost flynyddol y cytundeb wedi'i hadeiladu i mewn i'r cynllun ariannol tymor canolig. Sefydlodd nad oedd wedi'i hadeiladu i mewn i'r cynllun er bod yr arian wedi'i flaenoriaethu.

**Cam Gweithredu: Ceisio gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r sefyllfa Treth Brentisiaeth er mwyn hysbysu'r penderfyniad mewn perthynas â chytundeb Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu.**

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Manyleb Modelu Gallu**

Cydnabu'r Bwrdd y ddogfen gan gytuno nad oedd angen gweithredu ar hyn o bryd.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/06/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2298** | **Ystyried y Taliad Diswyddo Gwirfoddol yn ystod cyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Gorffennaf pan fydd ffocws ar faterion AD.** | **MH** |
| **PB 2299** | **Rhannu cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol) â'r PS.** | **SD** |
| **PB 2300** | **Y CHTh i anfon llythyr o ddiolch i'r** | **CHTh** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Gweinidog Plismona mewn perthynas â'r Dreth Brentisiaeth.** | |
| **PB 2301** | **Y CHTh i ymuno â'r cyfarfod Gwasanaethau Cyfreithiol ar y cyd ar 19 Gorffennaf.** | **CHTh** |
| **PB 2302** | **Cysylltu â Cerith Thomas mewn perthynas â Strwythur Llywodraethu Cymru Gyfan.** | **PS** |
| **PB 2303** | **Adolygu'r Polisi Diswyddo Gwirfoddol a'r oblygiadau ariannol cyn y derbynnir ceisiadau.** | **CC a'r PSA** |
| **PB 2304** | **Y PG i ymgysylltu â'r DBG mewn perthynas â chymorth ar gyfer adrannau i adolygu eu cyllidebau.** | **PG** |
| **PB 2305** | **Y CHTh i roi gwybodaeth am sefyllfa'r heddlu mewn perthynas â'r rhaglen wasanaeth genedlaethol ANPR.** | **SD** |
| **PB 2306** | **Ceisio gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r sefyllfa Treth Brentisiaeth er mwyn hysbysu'r penderfyniad mewn perthynas â'r cytundeb Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu.** | **PSA** |